Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 16 Ionawr 2015, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 16 Ionawr 2015, sef:

Nifer y teithiau gan eich staff/cynrychiolwyr ar y gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd a Sir Fon (neu Sir Fon-Caerdydd) yn ystod (a) 2014 (b) 2013 a (c) 2012. Os ydy'r ffigyrau ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol, hoffwn y ffigyrau ar gyfer y 3 blwyddyn ariannol diwethaf.

Cost y teithiau uchod i'ch cwmni/sefydliad.

Mae gennym y wybodaeth ganlynol sy'n bodloni'ch cais:

Blwyddyn ariannol	Nifer yr archebion*	Cyfanswm y costau
2011/12	33	£3,778.54
2012/13	21	£2,425.37
2013/14	14	£1,888.84

*Ar gyfer yr wybodaeth uchod rwyf wedi nodi archebion ar wahân. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn docynnau dwyffordd, ond nid yw'r cofnodion o'n cyfriflyfr bob amser yn nodi p'un a oedd archeb yn daith ddwyffordd neu'n daith un ffordd.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, fodd bynnag os hoffech gwyno am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch ataf.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips